Safon Gwasanaeth: Cynnwys Tenantiaid

Datganiad:

"sicrhau trwy gymryd rhan, y bydd tenantiaid yn dylanwadu ar ac yn gwella'r gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ogystal â'r cymunedau a wasanaethwn"

Rydym yn *cefnogi tenantiaid i gymryd rhan trwy fynychu ein cyfarfodydd a gweithgareddau drwy ddarparu cludiant a thalu costau gofal plant.*

Byddwn yn:

- Eich hysbysu am y newyddion diweddaraf:
  - *drwy anfon Calon - eich cylchlythyr (a gyhoeddir tair gwaith y flwyddyn)*
  - *drwy ddarparu* gwybodaeth perfformiad y Gymdeithas yn f*lynyddol* yn Calon ac ar ein gwefan
  - drwy d*diweddaru ein gwefan* a chyfryngau cymdeithasol fel bod angen.
  - drwy *adroddiadau adborth*
- *Darparu gwybodaeth am y* cyfleoedd ar gael i gymryd rhan y*n ein taflen gwybodaeth "Cymryd Rhan"*, sydd ar gael ar ein gwefan, y*n ein swyddfeydd, neu ar gais. Bydd bob tenant newydd yn derbyn y daflen yma.*
- *Yn gofyn eich barn cyn adolygu unrhyw bolisi a gweithdrefnau sydd yn berthnasol i'r gwasanaethau yr ydych yn ei dderbyn.*
- *Yn gofyn eich barn cyn gwneud unrhyw newidiadau i'n gwasanaethau all effeithio arnoch fel tenantiaid.*
- *Cynnal digwyddiadau/cynadleddau a gwibdaith i denantiaid.*
- Trefnu ymweliadau stad blynyddol a'ch hysbysu pan fyddwn yn eich ardal.
- Cynnal Arolwg Boddhad Tenantiaid llawn bob tair blynedd .
- *Monitro ein gwasanaethau drwy arolygon, gan gynnwys holiaduron a grwpiau tenantiaid perthnasol.*
- Cefnogi tenantiaid i gynnal cyfarfodydd/trafodaethau stad/ardal, a sefydlu grwpiau newydd
- *Cynnig cymorth a hyfforddiant i gynyddu hyder , gwybodaeth a sgiliau ein tenantiaid.*